Helpwch lunio dyfodol teledu!

Ymunwch â Phanel Gwylio Teledu Cenedlaethol BARB

www.shapingtv.co.uk

Disgwyliwch alwad gan **0800 819 9032**

BARB BROADCASTERS' AUDIENCE RESEARCH BOARD · Ipsos MORI · RSMB · KANTAR MEDIA

Diolch i chi am eich diddordeb mewn ymuno â Phanel Gwylio Teledu Cenedlaethol BARB. Mae aelodau'r panel yn cyfrannu'n uniongyrchol i'r diwydiant teledu trwy ganiatáu i ni fesur eu hymddygiad gwylio.

Mae eich cartref wedi cael ei ddewis yn arbennig ac mae'r diwydiant teledu cyfan yn gwerthfawrogi'ch cyfraniad. Heb gartrefi parod fel eich un chi, fydden ni byth yn gwybod pwy sy'n gwylio beth.

Nod y llyfryn hwn yw ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych ynghylch y broses a ddefnyddiwn i fonitro gwylio ar setiau teledu, tabledi a chyfrifiaduron.

Scott Jakeways

Cyfarwyddwr Cynulleidfaoedd Teledu

Ipsos MORI

Pam fod cynulleidfaoedd teledu yn cael eu mesur?

Mae gwybodaeth gwylio a gesglir o gartrefi ar y panel Gwylio Teledu Cenedlaethol yn darparu darlun clir o bwy sy'n gwylio gwahanol raglenni a phryd.

Defnyddir yr wybodaeth hon gan ddarlledwyr i'w helpu i ddeall eu cynulleidfa. Trwy gymryd rhan yn y panel, byddwch yn dylanwadu ar ddyfodol teledu.

Pwy sy'n cymryd rhan?

Nid yw aelodaeth o'r panel yn agored i bawb. Dim ond 5,100 o gartrefi sy'n cymryd rhan.

Mae cartrefi sy'n cymryd rhan yn cael eu dewis ar hap mewn modd sy'n sicrhau fod y panel yn cynrychioli holl gartrefi'r Deyrnas Unedig.

Pam fy nghartref i?

Mae angen trawstoriad o'r boblogaeth, yn cwmpasu pob oed a chefndir, gan gynnwys pobl sy'n gwylio ychydig, neu ddim teledu, a'r rhai sydd heb set deledu o gwbl.

Fe hoffem i chi gymryd rhan i adlewyrchu arferion gwylio pobl yn union fel chi.

How does it work?

Mae'r gwylio ar bob teledu, tabled a chyfrifiadur yn cael ei fesur ar gyfer pawb yn eich cartref.

I wneud hyn, fe atodir dyfais arbennig a elwir yn "fesurydd teledu" ar bob set deledu. Blwch yw'r mesurydd sy'n eistedd ger y teledu ac yn ein galluogi i nodi'r rhaglenni sy'n cael eu gwylio a pha aelod o'r cartref sy'n gwylio.

Cesglir unrhyw wylio ar tabledi a chyfrifiaduron hefyd. Gwneir hyn trwy ddefnyddio rhaglenni syml (neu 'apiau') sydd wedi eu cynllunio i gasglu'r un wybodaeth â'r mesurydd teledu: pwy sy'n gwylio a pha raglenni a wylir.

Cipolwg...

Teledu	• Cysylltir mesurydd â phob teledu yn y cartref • Mae'r mesurydd yn casglu olion bychain o sain • Mae'r sain yn cael ei gymharu gyda llyfrgell gyfeirio o'r holl gynnwys teledu sydd wedi ei ddarlledu • Aelodau'r cartref yn cofnodi eu presenoldeb trwy wasgu botwm ar declyn pwrpasol
Tabled	• Ap yn cael ei lwytho ar bob tabled yn y cartref • Ap yn adnabod pan wylir teledu ar ap neu wefan darlledwr • Mae aelodau'r cartref sy'n defnyddio'r tabled yn cofnodi eu presenoldeb ar yr ap
Cyfrifiadur	• Ap wedi ei lwytho ar bob cyfrifiadur yn y cartref • Ap yn adnabod pan wylir teledu ar wefannau darlledwyr • Mae aelodau'r cartref yn cofnodi eu presenoldeb mewn ffenestr sy'n ymddangos ar y sgrin pan wylir rhaglen

Y Mesurydd Teledu:

Pan fydd y teledu wedi ei droi ymlaen, mae'r mesurydd yn casglu gwybodaeth ynghylch y sianelau a wylir. Mae'n gwneud hyn heb amharu mewn unrhyw fodd ar y teledu, ac ni fydd yn effeithio ar sut ydych chi'n defnyddio unrhyw offer presennol. Mae'r mesurydd teledu yn defnyddio sain o'r rhaglen i nodi beth a wylir.

Ap Tabled/Cyfrifiadur:

Gosodir ap ar bob tabled a chyfrifiadur yn eich cartref. Mae'r ap yn chwilio am unrhyw achlysur pan fydd eich tabled neu gyfrifiadur yn gwylio rhaglen ar ap teledu neu wefan darlledwr, yn cynnwys BBC iPlayer, ITV Hub, All4, My5, Sky Go, UKTV Play, STV Player ac S4C.

Pan fydd yr ap wedi ei osod, mae'n cofrestru'ch llechen/ cyfrifiadur ar ein system i'n galluogi i ddod o hyd i'ch cofnodion gwylio yn y ffeiliau gwylio a dderbyniwn gan ddarlledwyr pob dydd.

Mae ein system yn nodi'ch rhif tabled /cyfrifiadur unigryw ac yn cysylltu'r gwylio yma i'r manylion a derbyniwn o'ch dyfais yn rhoi gwybod i ni pwy oedd wedi mewngofnodi i'r tabled / cyfrifiadur ar y pryd.

Ar gyfer cyfrifiaduron (ond nid tabledi) mae ein ap hefyd yn gwrando ar y sain sy'n dod o'ch dyfais. Pan fydd yn canfod sain, mae'n casglu samplau o synau sy'n cael eu trosi yn olion bysedd digidol. Mae'r samplau mor fach fel nad oes modd i'r glust ddynol eu clywed.

Mae'r olion bysedd hyn yn cael eu cymharu â llyfrgell gyfeirio o gynnwys teledu sy'n ein helpu i gadarnhau'r rhaglen a wylir.

Ni fydd y naill ap yn cael effaith nodedig ar sut mae'ch tabled/ cyfrifiadur yn gweithio.

Beth fydd rhaid i mi wneud mewn gwirionedd?

Rydym angen gwybod pwy sydd yn yr ystafell pan fydd y teledu wedi ei droi ymlaen.

Byddwch yn cael teclyn rheoli ar gyfer pob mesurydd teledu a bydd pob aelod o'r cartref yn cael botwm penodedig ar y rheolydd.

Byddwn angen i chi wasgu'r botwm os:

- Ydych chi yn yr ystafell a'r teledu yn cael ei droi ymlaen
- Byddwch yn dod i mewn i'r ystafell ac mae'r teledu ymlaen
- Byddwch yn gadael yr ystafell ac mae'r teledu ymlaen

Mae yna fotymau unigol i gofrestru gwesteion sy'n ymweld â'ch cartref.

Ar gyfer tabledi a chyfrifiaduron, byddwch yn cofrestru pwy sy'n defnyddio'r ddyfais ar yr ap.

Er ei bod y dasg yn syml, gall gymryd amser i chi ddod i arfer â hi.

Mae gennym dîm o reolwyr panel sydd ar gael i ateb unrhyw ymholiadau. Efallai y byddant yn rhoi galwad i chi yn y misoedd cyntaf i weld sut hwyl ydych chi'n ei gael arni, neu os byddant yn gweld unrhyw beth annisgwyl yn y data.

Sut mae'ch data gwylio yn cael ei ddychwelyd i ni?

Dros nos, bydd pob mesurydd teledu yn anfon y data gwylio atom ni ar gyfer y diwrnod hwnnw gan defnyddio'r rhwydwaith ffôn symudol.



Does dim rhaid i chi wneud dim ac ni fydd yn costio unrhyw beth i chi.

Os yw'r rhwydwaith symudol yn wan neu os nad oes un o gwbl, fe ddefnyddir rhif rhadffôn trwy eich llinell tir. Eto, ni fydd unrhyw gost i chi.

Y broses osod:

Mae'r panel yn cael ei weithredu gan Kantar Media ar ran BARB. Bydd un o dechnegwyr Kantar Media yn ymweld â'ch cartref i osod yr offer ar amser sy'n gyfleus i chi.

Bydd y technegydd yn:

- Cysylltu mesurydd teledu â phob set deledu
- Paratoi teclyn rheoli ar gyfer pob mesurydd teledu
- Llwytho ap ar bob tabled a chyfrifiadur

Ni fydd unrhyw beth a wneir yn effeithio ar y ffordd mae'ch setiau teledu, tabledi neu gyfrifiaduron yn gweithio.

Rydym yn argymell eich bod yn gadael ychydig oriau ar gyfer y broses gyfan; fodd bynnag, bydd hyn yn ddibynnol ar y math a nifer o setiau teledu, tabledi a chyfrifiaduron yn eich cartref a gellir eu rhannu ar draws mwy nag un ymweliad os yw'n fwy cyfleus i chi. Bydd yr amser gosod yn cael ei gadarnhau pan fydd Kantar Media yn cysylltu â chi i drefnu apwyntiad i'r technegydd ymweld.

Bydd y technegydd yn dangos i chi sut i gofrestru'ch bod yn gwylio ac yn gallu ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych ynghylch yr offer a osodir.

Cyfrinachedd

Dim ond cwmnïau ymchwil a gomisiynwyd gan BARB, gan gynnwys Ipsos MORI, Kantar Media ac RSMB, fydd yn cadw eich manylion personol. Dim ond mewn perthynas â'r astudiaeth hon y defnyddir eich manylion.

Ni fydd asiantaethau ymchwil a gomisiynwyd gan BARB yn datgelu eich hunaniaeth i unrhyw drydydd parti ac fe gedwir eich manylion i gyd yn gwbl gyfrinachol.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Yn ystod y dyddiau nesaf, byddwn yn eich ffonio i gadarnhau:

- Fod gennym rif y gallwn gysylltu â chi arno
- Fod y manylion sydd gennym ar eich cyfer yn gywir
- Fod pob aelod o'r cartref yn dal yn barod i'n helpu trwy ymuno â'r panel

Heb y cadarnhad hwn, ni allwn fwrw ymlaen i'r cam gosod, felly cadwch lygad am alwad gennym ar y rhif yma **0800 819 9032.** Efallai yr hoffech chi gadw'r rhif ar eich ffôn fel eich bod yn gwybod mai ni sy'n galw.

Wedi cadarnhau, bydd Kantar Media yn trefnu apwyntiad i dechnegydd ymweld.

Yn y cyfamser, os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynghylch y panel, ffoniwch dîm Ipsos MORI yn ystod oriau swyddfa gan ddefnyddio'r rhif rhadffôn **0808 129 6827.**

Neu, gallwch anfon e-bost i'r tîm ar **shapingtv@ipsos.com**

Gallwch hefyd ddod o hyd i ragor o wybodaeth ynghylch panel gwylio BARB trwy ymweld â'n gwefan **www.shapingtv.co.uk**

Cwestiynau cyffredin

"Pa mor hir mae'r astudiaeth yn parhau?"

Mae hon yn astudiaeth barhaus. Fel arfer byddwn yn disgwyl i bobl ymroi i o leiaf ychydig fisoedd, ond mae nifer yn aros ymlaen am flynyddoedd.

"Beth sy'n digwydd i'm data gwylio?"

Fe ddefnyddir yr wybodaeth i ddeall sut mae pobl yn gwylio teledu a fideo.

Cesglir data gwylio dros nos ynghyd â chartrefi eraill ledled y wlad. Pob bore am 9:30 am mae BARB yn cyhoeddi'r data gwylio hwn i roi ffigurau cynulleidfa i ddarlledwyr a hysbysebwyr ar raglenni'r diwrnod blaenorol.

"Dwi ddim yn gwylio teledu ar fy nhabled/ nghyfrifiadur. A oes angen ei fonitro beth bynnag?"

Oes, mae angen i ni fonitro'r holl dabledi a chyfrifiaduron p'un a ddefnyddir y rhain i wylio teledu ar hyn o bryd neu beidio.

Mae hyn yn helpu cadarnhau na wyliwyd unrhyw raglenni ac yn dangos pan fydd pobl yn dechrau gwylio ar eu tabled neu gyfrifiadur.

“A fydd yn costio unrhyw beth i mi?”

Mae’r mesuryddion teledu angen cyflenwad cyson o drydan, ac mae rhan o’r taliad gwobrwyo wedi ei gynllunio i dalu am y swm bychan o drydan a ddefnyddir.

Mae pob dyfais yn defnyddio llai na 0.2kWh, sy’n cyfateb i tua 3c y dydd.

“Pan dwi’n defnyddio bancio ar-lein neu’n mewngofnodi i wefan ddiogel, ydych chi’n gallu gweld fy enw defnyddiwr, cyfrinair neu falans?”

Nid oes gan yr ap yn fynediad at fanylion gwefannau y byddwch yn ymweld â nhw. Ni allwn weld unrhyw wybodaeth bersonol nac unrhyw beth a wnewch, nac unrhyw deipio ar eich tabled neu gyfrifiadur.

“A fydd yr ap yn arafu fy nhabled /nghyfrifiadur neu’n gwneud gwefannau’n arafach i lwytho?”

Na, mae’r ap yn fach iawn o ran maint gan ddefnyddio ychydig iawn o brosesydd eich tabled/cyfrifiadur.

“A ydych chi’n gwerthu fy nata i hysbysebwyr neu farchnatwyr er mwyn iddynt allu fy nhargedu gyda negeseuon e-bost sothach neu alwadau ffôn sy’n aflonyddu?”

Na, mae’r holl ffigurau gwylio a gyhoeddir gennym yn gwbl ddienw ac rydym yn gwarantu na fydd eich cyfranogiad ym mhanel BARB byth yn arwain at unrhyw alwadau, negeseuon e-bost na phost sydd ddim yn ymwneud yn uniongyrchol â panel BARB.

“Dwi ddim eisiau i chi weld beth mae fy mhlant yn gwneud ar ein tabledi a chyfrifiaduron. Dwi’n poeni y gallech recordio eu gweithgaredd ar-lein yn cynnwys sgyrsiau ac e-byst.”

Mae ein apiau wedi eu cynllunio i fod mor syml a diymwthgar â phosibl, a dim ond gwybodaeth yr ydym ei hangen i baru pobl i raglenni sy’n cael eu gwylio a welant. Ni allwn ddarllen negeseuon brys, e-bost nac unrhyw gyfathrebu personol arall ac mae’r olion bysedd sain a gesglir yn rhy fach i gael eu hadnabod gan glust ddynol.

“Dwi’n poeni y byddwch yn monitro fy nghyfrif e-bost a chael mynediad at fy rhestr gyswllt i anfon sothach at fy ffrindiau.”

Na, ni allwn gael mynediad at unrhyw e-bost, dogfennau na rhestrau cysylltiadau a storir ar eich tabled/cyfrifiadur.

“A fyddwch yn gallu monitro fy nhabled/ nghyfrifiadur gwaith?”

Rydym eisiau monitro unrhyw deledu a wylir ar unrhyw ddyfais sy’n gallu cael derbyn cynnwys teledu, mae hyn yn cynnwys tabledi/cyfrifiaduron a ddefnyddir at ddibenion gwaith. Yn anffodus, mae yna amgylchiadau ble bydd cyfrifiadur a ddarparwyd gan gyflogwr yn golygu na allwn osod ein ap. Ar yr adegau hyn, byddem yn ei osod ar bob dyfais arall ar wahân i’r un yna.

Ynghylch Ipsos MORI

Mae Ipsos MORI yn gwmni ymchwil annibynnol yn gweithio ar ran BARB. Mae Ipsos MORI yn cyflawni Arolwg Gwylio Teledu Cenedlaethol BARB ac yn nodi cartrefi sy'n gymwys i ymuno â'r Panel Teledu.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.ipsos-mori.com**

Ynghylch Kantar Media

Mae Kantar Media yn gwmni ymchwil y mae BARB wedi gofyn iddynt weithredu'r panel Gwylio Teledu.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.kantarmedia.com**

Ynghylch RSMB

Mae RSMB yn gyfrifol am y fethodoleg, cynllun ystadegol a rheoli ansawdd yr ymchwil cyffredinol ar ran BARB.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.rsmb.co.uk**

Ynghylch BARB

Mae BARB, Bwrdd Ymchwil y Darlledwyr i Gynulleidfaoedd, yn darparu'r diwydiant teledu â ffigurau gwylio, yn bennaf ar gyfer rhaglenni teledu, sianeli a hysbysebion. Mae hefyd yn casglu data gwylio ar gyfer rhaglenni teledu a fideo a ddarperir ar-lein.

Mae'r BBC, ITV, Channel 4, Channel 5, Sky, UKTV ac IPA yn gydberchnogion ar BARB.

Mae BARB hefyd yn darparu ffigurau cynulleidfaoedd i amrywiaeth o ddarlledwyr eraill.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.barb.co.uk**

आज तक
abn TV
Sky Channel 235
Akaal
APLUS
BOOMERANG
movies4men
MTV
NDTV 24x7
NEWS 18 தமிழ்நாடு
ATN BANGLA
BRIT ASIA TV
BT Sport
BET
NV TV
NEW VISION
nickelodeon
nollywood movies
CN
CARTOON NETWORK
CBSaction
challenge
channel 44
Pick
POP
prime tv
PTC PUNJABI
GLOBAL
QUEST
CHANNELS 24
colors
COMEDY CENTRAL
Discovery CHANNEL
Disney CHANNEL
rishtey
ROK
S4C
SONY SAB
SAMAA
StarGOLD
EUROSPORT
food network
FOX
geo
GINX
Syfy
tiny pop
TLC
travel CHANNEL
truTV
Good Food
HISTORY
home
HUM EUROPE
horror channel
LIFETIME
UNIVERSAL CHANNEL
urdu1 Europe
Venus TV
W
Z PUNJABI

I Grynhoi

Mae gwylio ar bob set deledu, tabled a chyfrifiadur yn cael ei fonitro trwy gysylltu mesurydd â phob teledu a llwytho ap ar bob tabled a chyfrifiadur.

Mae angen i bawb yn y cartref gymryd rhan trwy gofrestru eu bod yn gwylio teledu gan defnyddio teclyn pwrpasol, ac ar dabledi a chyfrifiaduron trwy wasgu eu botwm penodedig ar y sgrin.

Mae cartrefi ac unigolion yn casglu pwyntiau tra'u bod ar y panel, y gellir eu cyfnewid am amrywiaeth o dalebau a nwyddau stryd fawr.

Peidiwch ag anghofio, y camau nesaf:

1. Byddwn yn eich ffonio i sicrhau fod gennym y manylion cywir a'ch bod yn fodlon parhau, bydd yr alwad yn dod o:

   0800 819 9032

   Os na fyddwn yn llwyddo i gael gafael arnoch yn ystod y 7 diwrnod nesaf mae croeso i chi ein ffonio ni ar yr un rhif rhadffôn.

2. Wedi hynny, bydd Kantar Media yn cysylltu â chi i drefnu'r amser gorau i osod yr offer mesur teledu.

Am ragor o fanylion am beth i'w ddisgwyl pan bydd technegydd yn gosod yr offer, gwyliwch y fideo sy'n dangos diwrnod gosod BARB ar ein gwefan shapingtv.co.uk, lle gallwch hefyd ddod o hyd i fideos pellach yn dangos yr hyn sy'n gysylltiedig â bod ar y panel.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, gallwch ffonio ein llinell gymorth ar **0808 129 6827**

Ceir fwy o wybodaeth fanylach ar ein gwefan:

www.shapingtv.co.uk

BARB BROADCASTERS' AUDIENCE RESEARCH BOARD

Ipsos MORI

KANTAR MEDIA